# 1

# Rhagair gan Gadeirydd y Pwyllgor

Mae'n bleser gen i gyflwyno adroddiad blynyddol y Pwyllgor Moeseg a Safonau am y flwyddyn o 1 Ebrill 2020 hyd 31 Mawrth 2021. Bu hon yn flwyddyn ryfedd ac anarferol i'n Pwyllgor ni, fel y bu i'r Awdurdod yn gyffredinol. Oherwydd y cyfyngiadau a ddaeth yn sgil y pandemig, bu'n rhaid i ni roi o'r neilltu ein cynlluniau i barhau'r rhaglen o hyfforddi Cynghorwyr - gan gynnwys aelodau Cynghorau Cymuned a Thref - ar y Côd Ymarfer. Ond fe hoffwn sicrhau'r Awdurdod a'r cyhoedd fod hyn yn dal yn flaenoriaeth ar gyfer y dyfodol, pan fydd modd llacio'r cyfyngiadau presennol.

Fe gyfarfu'r pwyllgor ond dwywaith yn unig eleni, ar 5 Awst a 19 Tachwedd, ond llwyddwyd i ddelio yn brydlon â cheisiadau gan aelodau am Ollyngiad er mwyn iddynt fedru cymryd rhan mewn achosion lle 'roedd ganddyn nhw fuddiant rhagfarnol. Cawsom ein goleuo hefyd ar y materion a adroddwyd gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Panel Dyfarnu yn ymwneud â chynnal safonau.

Ar nodyn personol, gan mai dyma fydd fy adroddiad olaf fel Cadeirydd y Pwyllgor, 'rwyf am ddiolch i'm cyd-aelodau, i'r Swyddog Monitro a'r holl swyddogion sydd wedi rhoi cefnogaeth werthfawr a chyngor arbenigol i ni. Hefyd fe hoffwn ddiolch i chi, Gynghorwyr, a'ch llongyfarch ar gydymffurfio'n drylwyr â chanllawiau'r Côd Ymarfer.

Rwy'n dymuno'n dda i fy olynydd yng Nghadair y Pwyllgor Moeseg a Safonau, ac i'r ddau aelod newydd a fydd yn olynu Rif Winfield a fi ym mis Medi 2021.

**Hywel Wyn Jones**
**Cadeirydd Pwyllgor Moeseg a Safonau, 2020-21**

DRAFT

Cytunwyd yn y cyfarfod ar 19 Tachwedd 2020, bod swyddogion yn trafod cyfleoedd i ddarparu hyfforddiant trwy fideo-gynadledda neu hyfforddiant wedi'i recordio ymlaen llaw a bod Cynghorau Tref/Cymuned yn cael eu holi a oes ganddynt unrhyw geisiadau hyfforddi penodol mewn perthynas â'r cod a chynnal cyfarfodydd o bell.

## 5. RECRIWTIO AELODAU ANNIBYNNOL

Cyflwynodd y Swyddog Craffu a Safonau yr adroddiad ar recriwtio dau aelod annibynnol newydd i'r Pwyllgor yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2020. Penodwyd y Cadeirydd presennol Mr Hywel Wyn Jones a Mr Rif Winfield i ddechrau ar 27/9/2011 ac fe'u hailbenodwyd ar 27/9/2017. Bydd eu priod gyfnodau yn y swydd yn dod i ben ar 26/9/2021. Nid oedd yr aelodau hyn bellach yn gymwys ar gyfer eu hailbenodi. O ganlyniad, roedd angen recriwtio dau aelod annibynnol newydd i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau i gynnal cyfansoddiad y Pwyllgor, fel y nodir yn y Cyfansoddiad, ac fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth.

CYTUNODD y Pwyllgor i argymell i'r Cyngor:

1) Y disgrifiad o'r swydd, manyleb y person a'r meini prawf yn amodol ar y diwygiadau.

.

2) Aelodaeth y Panel Dethol fel a ganlyn:
    - Cadeirydd y Cyngor
    - Aelod Panel Annibynnol/Lleyg (wedi'i enwebu gan y Swyddog Monitro): Yr Athro John Williams
    - Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau (neu aelodau annibynnol eraill a enwebwyd gan y Swyddog Monitro yn ôl yr angen)
    - Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned wedi'i enwebu gan Un Llais Cymru.

## 6. YMGYNGORIADAU LLYWODRAETH CYMRU – Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 Rheoliadau i sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig- Rhan 5

Yng nghyfarfod 19 Tachwedd 2020, dywedwyd bod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ymgynghori ar y rheoliadau drafft a fyddai'n sefydlu pedwar Cydbwyllgor Corfforedig rhanbarthol ledled Cymru. Gofynnwyd i

aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ystyried cwestiynau 8 (a) (b) ac (c) y ddogfen ymgynghori.

CYTUNWYD y dylai aelodau a staff Cydbwyllgor Corfforedig fod yn destun Cod Ymddygiad ac y dylai'r cod fod yn debyg i god Prif Gyngor a bod pob aelod cyfetholedig yn cael ei gwmpasu gan god h.y. y rheini sydd â hawliau pleidleisio a’r rheini sydd hebddynt. Bydd hyn yn rhan o'r ymateb corfforaethol i'r ymgynghoriad.

**7. GWEITHDY**
Cynhaliwyd gweithdy o Aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ar 04 Mawrth 2021 i drafod y canllawiau Drafft gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar y Cod Ymddygiad. Anfonwyd argymhellion at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn unol â hynny.

**8. CASGLIADAU**
Cafodd y Pwyllgor flwyddyn gymharol dawel oherwydd pandemig Covid-19, ac roeddent yn ddiolchgar iawn am gyngor a chymorth y Swyddog Monitro, a Swyddogion Safonau yn ystod y ddau gyfarfod a gynhaliwyd, ac mewn perthynas â'r ymarferion ymgynghori.

DRAFT

| | |
|---|---|
| | |

**2019/2020**
Ystyriodd y Swyddog Monitro 13 o gwynion yn erbyn Aelodau mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad.

O’r rhain:
- roedd 11 yn erbyn Cynghorwyr Sir
- roedd 2 yn erbyn Cynghorwyr Tref/ Cymuned.

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o'r cwynion a gafwyd:

| **Cynghorwyr Sir** | **Cwynion a gafwyd** |
|---|---|
| Aelod ar Aelod | **0** |
| Y Cyhoedd ar Aelod | **3** |
| Swyddog ar Aelod | **8** |
| Hunanatgyfeiriadau at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | **0** |
| | **Cyfanswm: 11** |
| **Cynghorwyr Tref/ Cymuned** | |
| Aelod ar Aelod | **2** |
| Y Cyhoedd ar Aelod | **2** |
| | **Cyfanswm: 13** |

**BLWYDDYN GYFREDOL: 2020/2021**

Ystyriodd y Swyddog Monitro 23 o gwynion yn erbyn Aelodau mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad.

O’r rhain:
- roedd 17 yn erbyn Cynghorwyr Sir
- roedd 5 yn erbyn Cynghorwyr Tref/ Cymuned.

**Tarddiad y cwynion:**

| **Cynghorwyr Sir** | **Nifer y cwynion a gafwyd** |
|---|---|
| Aelod ar Aelod | **1** |
| Y Cyhoedd ar Aelod | **11** |
| Swyddog ar Aelod | **4** |

DRAFT

Roedd y cosbau a roddwyd/camau a gymerwyd yn cynnwys:  rhoddwyd cyngor i un o'r aelodau y dylai newid ei ymddygiad

**2019/20**
**Dywedodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod 6 chŵyn**

| | **Cyngor Sir** | **Cyngor Tref/ Cymuned** |
|---|---|---|
| **O'r rhain:**<br>**Gwrthodwyd**<br>**Ymchwilio/Caewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol:** | **5**<br><br>**5** | **1**<br><br>**0** |
| **Rhoddwyd y gorau i'r ymchwiliad:**<br>**Nid oedd angen cymryd camau pellach** | **0**<br>**0**<br>**0** | **1**<br>**0**<br>**1** |
| **Dim tystiolaeth bod y Cod wedi'i dorri:**<br>**Torri'n dechnegol** | **0**<br>**1** | **0**<br>**0** |

**O'r rheini yr ymchwiliwyd iddynt:**

- **Arweiniodd 0 at gosbau ac**
- **Arweiniodd 0 at ddim cosbau ."**

**BLWYDDYN GYFREDOL 2020/21**
**Dywedodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod 4 chŵyn**

| | **Cyngor Sir** | **Cyngor Tref/ Cymuned** |
|---|---|---|
| | **2** | **2** |

